Cyfarfod Ieuenctid Rhanddeiliaid y Sector Taith - Crynodeb
Dydd Gwener, 29 Medi 2023
10.30am – 11.30am
Cyfarfod a gynhaliwyd trwy Zoom

Rhestr Bresenoldeb	
Yn Bresennol:	Siôn James, Taith, (Cadeirydd) Catrin James, Urdd Gobaith Cymru Dave Entwistle, y Groes Goch Brydeinig Vicky Court Liz Griffiths, Cyngor Sir Penfro Bari Gwilliam, SISTEMA Paul Glaze, CWVYS Daniel Mapatac, WCIA Bev Martin, Geidiaid Cymru Howard Williamson, PDC
Cyfieithydd	Iola Llwyd
Ymddiheuriadau:	
Aelodau o Gorff Gweithredu Rhaglen Taith (TPE):	Ellie Bevan Walter Brooks Claire Richardson Bethan Williams
Cymorth Ysgrifenyddol:	Michele Convery

Cofnodion		
Eitem ar yr agenda	**Eitem**	**Gweithredu (G) – Trafod (T)**
1	**Croeso a chyflwyniadau**	
1.1	Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod ac esboniwyd iddynt, er nad grŵp gwneud penderfyniadau oedd hwn, y byddai'r trafodaethau a'r adborth o'r cyfarfodydd hyn yn llywio unrhyw gynigion a gyflwynir i ILEP Ltd. Bwrdd y Cyfarwyddwyr.	
1.2	Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y cyfarfod yn cael ei gofnodi i gefnogi cymryd cofnodion a gofynnwyd iddynt ddefnyddio'r llaw rithwir wrth eisiau cyfrannu at drafodaethau.	
1.3	Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am yr opsiwn o gyfieithu ar y pryd yn y Gymraeg a rhoddwyd cyfarwyddiadau iddynt ar sut mae mynd ati i'w ddefnyddio.	
2	**Cofnodion y cyfarfod diwethaf a'r camau gweithredu**	
2.1	Ni chafwyd unrhyw sylwadau ar y cofnodion blaenorol.	
3	**Pynciau i'w trafod**	
3.1	Cyflwynwyd trosolwg o bapur 'Diweddariadau Taith a Pynciau i'w Trafod', a gafodd ei ddosbarthu cyn y cyfarfod. Rhoddwyd yr adborth canlynol mewn perthynas â'r papur:	
	Cyfranogwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol:	
3.1a	Yn ogystal, hysbyswyd aelodau bod trafodaethau mewnol cychwynnol, er nad ydynt yn sefydlog, yn awgrymu targed lleiaf o 20%.	
3.1a(i)	Dywedwyd bod y cynnig hwn yn ychwanegiad eithaf da, ac mae'n dda gweld canllawiau ar y dystiolaeth sydd ei hangen. Gofynnwyd a ellir cymhwyso'r dystiolaeth hon yn ôl-weithredol.	
3.1a(ii)	Dywedodd **Taith** y gellir cymhwyso hyn at brosiectau cyfredol. Gall casglu tystiolaeth fod yn rhywbeth sensitif ac yn anodd ac mae canllawiau ychwanegol yn y llawlyfr. Gellir darparu mwy o wybodaeth os oes angen.	
3.1a(iii)	Gofynnwyd a oes rhaid i'r ganran a nodir yn y cais fod yn berthnasol i bob symudedd neu ymgeisydd unigol neu fod ar draws y prosiect cyfan.	
3.1a(iv)	Dywedodd **Taith** y byddai'n berthnasol ar draws y prosiect cyfan yn ystod y cam gwneud cais.	

	Newidiadau i gyfraddau grant:	
3.1b	Amlygwyd bod hwn yn gam cadarnhaol a byddai unrhyw gynnydd arall yn cael ei groesawu fel cymorth sefydliadol yn rhan allweddol o'r ddarpariaeth.	
3.1b(i)		
3.1b(ii)	Amlygwyd bod rhai o'r cronfeydd cymorth sefydliadol yn cael eu defnyddio ar deithio gan nad yw'r cyfraddau teithio yn talu'r costau.	
	Cynaliadwyedd:	
3.1c	Dywedwyd ei bod bob amser yn dda gweld polisïau gwyrdd. Byddai cyllid ychwanegol yn helpu i	
3.1c(i)	ddewis ffyrdd mwy gwyrdd o deithio.	
3.1c(ii)	Amlygwyd bod croeso bob amser i deithio gwyrdd, yn enwedig ar gyfer teithio Ewropeaidd, ond mae'n cymryd mwy o amser i staff deithio yn ôl y dulliau hyn ac mae'n golygu bod yn rhaid eu rhyddhau am gyfnodau hirach.	
3.1d	**Gwella eglurder a lleihau baich gweinyddol:** - AU (Addysg) ac AU (Ymchwil) - Addysg Bellach ac Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol – iaith	
3.1d(i)	Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan nad yw'n berthnasol i'r sector hwn.	
4	**Diweddariadau gan Taith**	
4.1	Hysbyswyd yr aelodau am gyfarfodydd bob sector a gynhelir ddwywaith y flwyddyn. Bydd y rhain yn gyfle i ddysgu ar y cyd ac i fynd i'r afael â materion traws-sector ar y cyd. Nid oes dyddiad wedi'i bennu eto, ond bydd e-bost yn cael ei anfon ar ôl i benderfyniad gael ei wneud.	
4.2	Atgoffwyd yr aelodau fod galwad nesaf Llwybr 2 am geisiadau yn agor ar 5 Hydref. I gefnogi hyn, bydd cyfres o weminarau, ac mae manylion cofrestru ar gyfer y rhain yn yr adran 'Digwyddiadau' ar wefan Taith. At hyn, gellir trefnu cyfarfodydd llai i drafod syniadau posibl am brosiectau neu i ofyn cwestiynau am y llwybr.	
4.3	Cynghorwyd yr Aelodau fod y recriwtio ar gyfer chwe aelod newydd o'r Bwrdd Cynghori yn dechrau ym mis Hydref a gofynnwyd iddynt rannu hyn drwy eu rhwydweithiau. Yn ogystal â hyn, rhoddwyd gwybod i'r aelodau na all y darpar ymgeiswyr fod yn derbyn cyllid gan Taith.	
5	**Eitemau a godwyd gan aelodau grŵp rhanddeiliaid y sector**	

5.1 5.2 5.2 5.2(i) 5.2(ii) 5.3	Gofynnwyd i'r Aelodau adrodd (drwy e-bost) am unrhyw ddigwyddiadau y dylai Taith fod yn eu proffilio. Hysbyswyd bod cyfweliadau CWVYS gyda Wavehill Consultants (gwerthuswyr allanol annibynnol) wedi'u cwblhau ac iddynt fynd yn dda. Mynegwyd pryder y gellir colli llais y sector ieuenctid yn enwedig gan na all aelodau'r Bwrdd fod yn fuddiolwyr ac efallai y bydd pobl yn y sectorau sydd â chyfoeth o wybodaeth sy'n teimlo eu bod wedi cael eu heithrio. Sut y bydd hyn yn cael ei graffu? Sylw fel y postiwyd yn y sgwrs "beth mae 'annibynnol' yn ei olygu yng nghyd-destun y pwyllgor ymgynghorol - byddai gofyniad iddynt lenwi mynegiant o ddiddordeb". Dywedodd **Taith** mai'r nod yw ceisio dileu'r gwrthdaro ac, os oes amwysedd ynghylch cymhwyster i wneud cais, byddai'n annog pobl i gysylltu. Bydd Taith yn sicrhau y bydd llais o'r holl sectorau yn bwydo i mewn i Fwrdd Cyfarwyddwyr ILEP. Ltd ar gyfer gwneud penderfyniadau. Dywedwyd y byddai unrhyw gymorth sefydliadol arall y gellir ei ddarparu yn ddefnyddiol iawn. Hefyd gallai adrodd gael ei symleiddio neu ei leihau.	
6	**Dyddiad y cyfarfod nesaf**	
6.1	Cyfarfod nesaf 4 Rhagfyr 2023	